Jill Evans ASE

Adroddiad Blynyddol 2009/10

Y Gwyrddiaid | CRhE
yn y Senedd Ewropeaidd

Plaid

Gwefan: **JillEvans.net** Blog: **Jillevansblog.net**

Mae'n unarddeg mlynedd ers i mi gael fy ethol am y tro cyntaf i gynrychioli Cymru gyfan yn Senedd Ewrop. Roeddwn wrth fy modd i gael fy ail-ethol yn yr etholiad fis Mehefin diwethaf a hoffwn ddiolch i bob un ohonoch a wnaeth ymddiried ynof. Yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng economaidd a newid hinsawdd mae angen i ni sicrhau bod llais Cymru i'w glywed yn uwch nag erioed o'r blaen.

Roedd yn anrhydedd mawr i mi gael fy ethol yn Llywydd ein grwp o saith aelod Cynghrair Rhydd Ewrop (EFA) yn Senedd Ewrop. Rydym yn gweithio gyda'r Gwyrddiaid a gyda'n gilydd, ni yw'r pedwerydd grwp mwyaf yn y senedd. Fel Llywydd EFA, rydw i hefyd yn Is-Lywydd y grwp llawn Gwyrddiaid/EFA.

Jill Evans ASE gyda Frieda Brepoels (Fflandrys) a Ian Hudghton (SNP), ar ei phenodiad fel Llywydd Grwp EFA.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi mwy o wybodaeth i chi am fy ngwaith fel ASE. Fe welwch fy mod yn ymwneud â llawer o ymgyrchoedd i gael y gorau i Gymru yn Ewrop ac i godi ein proffil rhyngwladol. Y flwyddyn diwethaf oedd y flwyddyn mwyaf llwyddiannus erioed ac rydym yn sicr wedi cael dylanwad gwirioneddol a chadarnhaol yn Senedd Ewrop. Diolch i'r holl grwpiau ac unigolion a ddaeth i Frwsel a Strasbwrg, naill ai am ymweliad, i berfformio neu er mwyn gwneud profiad gwaith. Mae pob un ohonoch yn helpu i roi Cymru ar y map.

Diolch hefyd i bawb sydd wedi ysgrifennu ataf neu anfon ebost ar faterion sydd yn bwysig i chi. Y ffordd orau i mi wybod fy mod yn eich cynrychioli yw drwy i chi gysylltu â mi. Po fwyaf yw'r gefnogaeth a gaf i gan bobl yng Nghymru, po fwyaf yw'r dylanwad sydd gen i. Daliwch ymlaen i ysgrifennu!

Fel arfer, hoffwn ddiolch i bawb ym Mhlaid Cymru a fy nghyd-weithwyr am eu cefnogaeth. Ond ni allaf wneud fy ngwaith yn iawn heb gefnogaeth fy nhîm. Rydw i'n lwcus iawn i gael staff mor ymroddedig, sy'n credu mor gryf â fi mewn ymladd dros Gymru. Diolch arbennig i Sara Davies, Sara Medi, Darren Jones, David Bradley a Marcus Warner, a hefyd i fy nghyn Swyddog Gweinyddol Ann Rees Sambrook.

Jill

Gwefan: JillEvans.net **Blog: Jillevansblog.net**

Aelodau EFA:

Ian Hudghton - Alban · Frieda Brepoels - Fflandrys · Francois Alfonsi - Corsica
Oriol Junqueras - Catalwnia · Alyn Smith - Alban · Tatjana Zdanoka – Latfia

Staff a manylion cyswllt

Sara Davies
Ymchwilydd a Phennaeth Swyddfa

ASP 8H153
European Parliament
1047 Bruxelles

jill.evans-office@europarl.europa.eu

T 00322 2847103
F 00322 2849103

Sara Medi
Ymchwilydd

ASP 8H153
European Parliament
1047 Bruxelles

jill.evans-office@europarl.europa.eu

T 00322 2847103
F 00322 2849103

Darren Jones
Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd

45 Heol Gelligaled
Ystrad Rhondda
CF41 7RQ

ywasg@jillevans.net

T 01443 440999
F 01443 441395

Marcus Warner
Gwaith Achos

45 Heol Gelligaled
Ystrad Rhondda
CF41 7RQ

cyswllt@jillevans.net

T 01443 441395
F 01443 441395

David Bradley
Cyswllt Etholaeth

65 Stryd y Ffynnon
Rhuthun
LL15 1AG

etholaeth@jillevans.net

T 01824 709700
F 01824 704235

Wedi'i ddylunio a'i argraffu gan Field Design and Print, 9 Heol Penybryn, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 9HT F: 01656 720 640 ar Sidan wedi'i ailgylchu 150gsm